

# Cam 3

## Mae'r AALI yn penderfynu nad oes angen datganiad

- Os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu peidio rhoi datganiad bydd y Gweithiwr Cymorth i Deuluoedd - Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cyfarfod gyda chi i esbonio'r rhesymau am hynny.
- Ysgrifennir nodyn yn lle datganiad a fydd yn cynnwys yr holl wybodaeth a gasglwyd am y plentyn/person ifanc.
- Gall Swyddog Addysg gyfarfod gyda chi i drafod beth arall y gellid ei wneud i gefnogi eich plentyn yn yr ysgol.
- Os nad ydych yn cytuno â phenderfyniad yr awdurdod lleol, mae gennych chi a'ch plentyn yr hawl i apelio (trowch i dudalen 6).

## Mae'r AALI yn penderfynu fod angen datganiad

- Bydd yr awdurdod lleol yn crynhoi'r holl wybodaeth mewn un ddogfen fydd yn nodi a disgrifio'r ddarpariaeth y bydd eich plentyn yn ei derbyn.
- Bydd hon ar ffurf drafft yn y lle cyntaf ac fe'i gelwir yn ddatganiad arfaethedig.

## Mae'r AALI yn danfon datganiad drafft

- Bydd y Gweithiwr Cymorth i Deuluoedd - Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cyfarfod gyda chi a'r ysgol i gyflwyno'r datganiad arfaethedig.
- Bydd y Gweithiwr Cymorth i Deuluoedd - Anghenion Dysgu Ychwanegol yn mynd trwy bob pwynt ac yn eglurhau unrhyw gwestiynau sydd gennych.